
# Adroddiad Blynyddol

# Cyngor Cymuned Bodedern

# 2023 - 2024



# Gair gan y Cadeirydd

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i chi am ymddiried ynof a'm hail ethol fel Cadeirydd am y pum mlynedd diwethaf.

Mae yna newidiadau wedi bod yn aelodaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2023-2024 gydag ymddiswyddiad Mrs Ann Thomas a fu'n aelod gwerthfawr iawn o'r Cyngor Cymuned am flynyddoedd. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwasanaeth a'i chyngor doeth yn ystod ei chyfnod fel Cynghorwr. Yn ei lle croesawyd Mr Osian Jones ac rwy'n siwr y bydd yntau yn gaffaeliad mawr i'r Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn ymddiswyddodd ein clerc Mrs Rhian Richards a penodwyd Mr Dylan Hughes yn ei lle.

Ar drothwy 41 o flynyddoedd o wasanaeth fel aelod o'r Cyngor Cymuned dyma'r flwyddyn anoddaf a mwyaf heriol rydym wedi ei wynebu, ond gyda chefnogaeth, proffesiynoldeb a chyngor ynghyd â help Ms Mai Owen teimlaf ein bod wedi ac yn goresgyn yr anhawsterau a bod dyfodol clir i'r Cyngor i weithio ar ran pentref Bodedern a'r ardal.


O hyn allan mae'n bwysig ein bod yn edrych ar yr hyn sydd ei angen er mwyn gwelliant, pennu blaenoriaethau i weithio tuag atynt, creu gwell cysylltiad gyda'r gymuned, gwella ein gwefan a chreu gwell cyswllt efo ysgolion y pentref.

Credaf ein bod yn datblygu i fod yn dîm da, yn cyd-weithio efo'n gilydd er budd y pentref a'r ardal.

Fel Cadeirydd, rwy'n cymryd fy rôl o ddifrif ac yn ceisio fy ngorau i wasanaethu y gymuned rwyf wedi ei hethol iddi.

Diolchaf ichi eto am eich cefnogaeth.

Ann Roberts





**Cyflwyniad**

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Bodedern ar gyfer y flwyddyn ariannol

2023 - 2024.

Mae’r adroddiad wedi ei baratoi i ddiwallu gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol a rheolaeth gadarn o arian cyhoeddus. Bwriad yr adroddiad yw creu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cyngor Cymuned ym Modedern.




Pentref a chymuned yng ngorllewin Ynys Môn yw Bodedern. Wedi’i leoli ar y Lon B5109 tua 7 milltir o Gaergybi a thua 11 milltir o Langefni. Ffurfir yr enw Bodedern o’r gair Cymraeg ‘bod’ sy’n golygu ‘annedd’ ac enw’r Sant ‘Edern’ a sefydlodd Eglwys y Plwyf yn y 7fed ganrif.

Mae’n bentref gyda hanes diddorol a’r llyn naturiol mwyaf ym Môn, Llyn Llywenan, yn ei phlwyf. Mae’r Neuadd Bentref sydd bellach dros 100 oed yn parhau i gael ei defnyddio gan wahanol fudiadau. Mae Pwyllgor y Neuadd Goffa sy’n elusen cofrestredig yn gyfrifol amdani.

Ar safle yr hen ysgol gynradd ceir 4 uned diwydiannol ac fe’i defnyddir gan fusnesau lleol.

Ceir yma ddwy ysgol sy’n diwallu anghenion addysg yr ardal a thu hwnt sef Ysgol Gynradd Bodedern ac Ysgol Uwchradd Bodedern.

Ym 2017 roedd Bodedern yn gartref i Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Yng nghyfrifiad 2021 roedd gan y gymuned boblogaeth o 1,193.

**Aelodaeth y Cyngor**

Roedd 10 aelod ac un Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol ar y Cyngor yn ystod Blwyddyn ariannol 2023 - 2024.

Cadeirydd y Cyngor - Miss Jane Ann Roberts

Is-Gadeirydd - Dr Edward Thomas Jones

Ms Joanne Ferry

Mrs Bethan Hughes

Mrs Linda Jones

Mr Richard Jones

Mr Osian Jones

Mr Victor Owen

Mrs Ann Postle

Mr Dafydd Williams

Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol - Mrs Rhian Wyn Richards

**Manylion Cyswllt**

Prif gyswllt y Cyngor Cymuned oedd y Clerc sef Mrs Rhian Wyn Richards. Ymddiswyddodd ddiwedd Mawrth 2024. Penodwyd Mr Dylan Emlyn Hughes yn ei lle.

Cyfeiriad Cyswllt y Clerc newydd yw:-

6 Plas Main, Bodedern, Caergybi, Ynys Môn. LL65 3TN

Rhif Ffôn - 07398221406

Ebost:- bodederncyngorcymuned@gmail.com

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd J A Roberts trwy ebost :- bodederncyngorcymuned@gmail.com

**Safle We**

Mae dogfennau megis cofnodion cyfarfodydd, polisiau, cyfrifon ayyb yn cael eu datblygu ar ein gwefan www.cyngorcymunedbodedern.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar y pedwerydd nos Lun o bob mis ac eithrio Awst a Rhagfyr a hynny yn Lolfa Gymunedol, Bro'r Ysgol.

Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor, felly, cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Mai. Dewisir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd am y flwyddyn ynghyd ac aelodau ar wahanol bwyllgorau. Adolygir Dogfennau a Pholisiau'r Cyngor sydd newydd gael eu rhoi ar wefan y Cyngor—Côd Ymddygiad, Rheolau Ariannol a Polisi Lwfanasau Cynghorwyr.

**Aelodaeth Allanol**

Mae Cyngor Cymuned Bodedern wedi elwa yn fawr iawn o fod yn aelod o Un Llais Cymru ac wedi derbyn cyngor ganddynt ar sawl achlysur ar faterion cyfreithiol, polisiau, gwasanaethau ayyb.

**Atebolrwydd**

Mabwysiadwyd Côd Ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau pob aelod. Datgelir unrhyw ddiddordeb o fuddiannau am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a byddant yn cael eu nodi yn y cofnodion.

Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Mr Alun Foulkes a'r archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Cyllid**

Yn 2023 - 2024 derbyniwyd praesept o £15,000 gan Gyngor Sir Ynys Môn tuag at wariant y Cyngor i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a baratoir i'r gymuned. Dyma'r unig ffynhonnbell o incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn. Gwrthododd yr aelodau i gyd y lwfans o £150 yr oedd ganddynt hawl iddo

Cyfanswm gwariant 2023 / 2024 oedd £11,278.60.

**Cysoni yn y Banc**

Balans a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 - **£33,969.69**

**Derbyniadau**

Praesept - £15,000

Grant - £1,000

**£16,000.00**

**Taliadau**

| | |
|---|---|
| Parc | - £6,849.60 |
| Fynwent | - £2,000 |
| Cyflog Clerc | - £960 |
| Rhodd i Eisteddfod Mon | - £1,000 |
| Eraill | - £469 |

**£11,278.60**

Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024 - **£38,691.09**

Roedd gan Gyngor Cymuned Bodedern asedau sefydlog gwerth £25,095 ar 31 Mawrth 2024

**Sul y Cofio**

Cafodd gwasanaeth Sul y Cofio ei gynnal ger Neuadd Goffa Bodedern ym mis Tachwedd a torch o bapi yn cael ei chyflwyno ar ran y Cyngor Cymuned gan y Cadeirydd Ann Roberts.

## Gofynion Cyllidebol yn y Dyfodol

Yng nghyfarfod Ionawr 2023 penderfynwyd gosod y praesept yn £14,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 - 2024.

## Hyfforddiant

Gan fod Un Llais Cymru yn darparu hyfforddiant i gynghorwyr penderfynwyd bod y Cyngor am dalu am ddau hyfforddiant i bob aelod yn ystod y flwyddyn. Ni fu yr aelodau ar unrhyw hyfforddiant yn ystod 2023 / 24.

## Cyfrifoldeb a Cynnal a Chadw Asedau

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal mae'n gynrychioli.

- Gosod Praesept (yr arian a dderbynir gan y Cyngor Sir bob blwyddyn)
- Ymgynghori a chyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio
- Hysbysu adrannau perthnasol yn y Cyngor Sir ar faterion cynnal a chadw priffyrdd, enwi strydoedd, gor-yrru, parcio, llwybrau, goleuadau stryd ayyb
- Cynnal arolwg o gyflwr yr asedau yn y Parc Chwarae a'r Fynwent
- Cynnal a chadw tiroedd y Cyngor
- Ystyried ceisiadau am nawdd oddiwrth grwpiau, elusennau a mudiadau os ydym yn derbyn eu mantolen ariannol
- Talu yswiriant am y Fynwent a'r Parc Chwarae

## Yn ystod 2023—2024

### Mynwent y Plwyf

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am dorri glaswellt yn y fynwent. Gan fod gordyfiant wedi bod efo 'r coed yn y ffrynt torrwyd y rhai sydd yn gwynebu y lon yn ogystal a'r tu mewn.

### Parc Chwarae

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am dorri glaswellt yn y Parc Chwarae ac am archwiliadau iechyd a diogelwch. Gwelwyd bod angen trwsio un offer ac roedd yn rhaid cael gwared o 3 oherwydd eu cyflwr. Gosodwyd 4 panel o ffens newydd.  Maent yn talu am gasglu sbwriel o'r parc a hynny bob bythefnos.

### Llwybrau Cyhoeddus

Gwelwyd bod ambell un angen sylw yn ystod y flwyddyn.

### Nawdd

Rhoddwyd rhodd o £1,000 tuag at Eisteddfod Môn Bro Alaw 2024

£20 ar gyfer gosod torch o bapi wrth y Neuadd Bentref ar Sul y Cofio

**Awdurdod Lleol**

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyd-weithio yn agos gyda'r ddau Gynghorydd Sir - Gwilym Jones a Ken Taylor gyda'r ddau yn mynychu y cyfarfodydd yn fisol.

Mae Dr Edward Jones wedi cychwyn mynychu cyfarfodydd Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r awdurdod.

Mae Mrs Linda Jones yn mynychu cyfarfodydd Tywyn Trewan ac yn rhoi adroddiad inni o'r cyfarfodydd hynny.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2024 - 2025**

Bydd Cyngor Cymuned Bodedern yn parhau i wasanaethu'r gymuned yn unol â'i dyletswyddau o dan Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn rhoddir sylw i'r canlynol:-

- Gwella Gwefan y Cyngor
- Gwella y cyfathrebu rhwng y Gymuned â'r Cyngor
- Gwella'r asedau cymunedol
- Gwella'r cysylltiad gyda gwahanol fudiadau e.e. y ddwy ysgol - cynradd ag uwchradd





